FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU

CYFARFOD EITHRIADOL O'R CYNGOR – YNGHYLCH Y PENTREF IEUENCTID
17eg CHWEFROR 2022
7.30YH – ZOOM

COFNODION

CADEIRYDD: Caryl Haf **IS-GADEIRYDD:** Hefin Evans

PRESENNOL: Hefin Jones, Mared Jones, Caryl Haf (Cadeirydd CFfI Cymru), Kate Thomas (Morgannwg), Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn), Tom Bevan (Aelod Cyfetholedig), Hilary Jones (Aelod Cyfetholedig), Elin, Rhian, Katie Court (Morgannwg), Siôn (Sir Gâr), Gwen Thomas (Eryri), Dafydd Jones (Cadeirydd Gweithgor yr Adeilad), Iwan Meirion (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli), Jayne Jones (Aelod Cyfetholedig), Carys, Leanne Davies (Brycheiniog), Manon Williams (Meirionnydd), Katie Davies (Aelod Cyfetholedig), Elin Lewis, Anna Jones (CFfI Cymru), Aled Thomas (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata), Aled Thomas, Hefin Evans (Is-gadeirydd CFfI Cymru), Iestyn Owen (Sir Gâr), Lauren (FfCCFfI), Nerys Lewis (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Rhyngwladol), Rhys Richards (Ynys Môn), Mared Jones (Aelod Cyfetholedig), Dewi Davies (Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig), Gwyneth Thomas (Morgannwg), Cerys Herts (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid), Kate Miles (Aelod Cyfetholedig), William Jones (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig), Abbie (Gwent), Carys Phillips (Sir Benfro)

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Meinir Owen, Sam Kurtz, Siân Healey a Sioned Davies

CROESO AC AMLINELLIAD O'R CYFARFOD

Cafwyd croeso gan Caryl Haf, ac amlinellodd y pwyntiau a fyddai'n cael eu trafod yn y cyfarfod eithriadol hwn o'r Cyngor ynghylch cynnal y Pentref Ieuenctid. Diolchodd i bawb a atebodd yr arolwg, ac i'r rhai a hyrwyddodd yr arolwg yn eu ffederasiynau sirol. Trosglwyddwyd awenau'r cyfarfod i Iwan Meirion a Claire Powell i drafod y gyllideb a fyddai ar gael i ariannu'r Pentref Ieuenctid.

Y GYLLIDEB I ARIANNU'R PENTREF IEUENCTID

Cychwynnodd Iwan gan ddiolch i Claire a Phil am eu gwaith caled yn ymchwilio i safbwyntiau aelodau ynghylch y Pentref Ieuenctid. Roedd canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu fod aelodau am i'r Pentref Ieuenctid gael ei symleiddio, i gael gwared ar y costau mawr a glustnodwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, a chychwyn unwaith eto trwy ail-greu'r digwyddiad i sicrhau y byddai'n ymdebygu i'r hyn yr arferai fod.

Yna, rhannwyd manylion y gyllideb a'i thrafod â'r rhai a oedd yn bresennol.

Yna, cyflwynwyd y cynigion fel y gallai'r sawl a oedd yn bresennol bleidleisio yn eu cylch. Dyma oedd y canlyniadau.

1. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r cynnig – y bydd Pentref Ieuenctid 2022 ar gyfer aelodau 16 – 17 oed yn unig.

29 o ymatebion. Pleidleisiodd 82.9% o blaid y cynnig. Pleidleisiodd 7.24% yn erbyn y cynnig.

Cadarnhawyd y bydd digwyddiad 2022 ar gyfer aelodau 16 ac 17 oed.

Yn dilyn y cwestiwn hwn, diwygiwyd geiriad yr ail gynnig i sicrhau ei fod yn eglur. Cyflwynodd Aled Thomas gynnig i newid y geiriad, ac eiliwyd hynny gan Rhian. Newidiwyd y geiriad i'r canlynol:

2. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo y dylai 50 y cant o bob grŵp sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n neilltuo llety yn aelodau o'r CFfI, ar gyfer Pentref Ieuenctid 2022.

   Ymatebodd 32. Pleidleisiodd 59.37% o blaid y cynnig. Pleidleisiodd 37.5% yn erbyn y cynnig. Ataliodd 3.12% eu pleidlais.

   Cadarnhawyd, yn achos pob grŵp o bobl ifanc sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n neilltuo llain gwersylla yn y Pentref Ieuenctid, fod angen i o leiaf 50% ohonynt fod yn aelodau o'r CFfI.

3. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo mai dim ond aelodau o'r CFfI sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn a all brynu tocyn i fynd i faes adloniant y Pentref Ieuenctid.

   Ymatebodd 30. Pleidleisiodd 26.66% o blaid y cynnig. Pleidleisiodd 70% yn erbyn y cynnig. Ataliodd 3.33% eu pleidlais.

   Cadarnhawyd y gall unrhyw un sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn ddod i Faes Adloniant y Pentref Ieuenctid. Bydd angen i bobl ifanc 16 - 17 oed fod yn aelodau o'r CFfI.

4. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo mai dim ond y sawl sy'n aelodau o'r CFfI a all brynu tocyn mynediad 12 awr ar gyfer y maes gwersylla.

   Ymatebodd 31. Pleidleisiodd 96.77% o blaid y cynnig. Pleidleisiodd 3.22% yn erbyn y cynnig.

   Cadarnhawyd na chaniateir gwerthu tocyn mynediad 12 awr ar gyfer y maes gwersylla i unrhyw un sydd ddim yn aelodau o'r CFfI.

EM/33/2022 **UNRHYW FATERION ERAILL**

Cadarnhaodd Iwan Meirion y bydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli yn ailystyried rhai o'r cynigion o ran y gyllideb, yn enwedig y gyllideb ar gyfer adloniant, oherwydd fe wnaeth Mared Jones, Tom Bevan a Katie Miles awgrymu na fyddai £5,000 yn ddigon ar gyfer yr wythnos gyfan.

Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, felly diolchodd Caryl Haf i bawb am fynychu a chyhoeddodd fod y cyfarfod ar ben am 20:53.

Llofnod: _____ **Dyddiad: _____**